

Bywyd y Gwastadeddau

Croeso i'n rhifyn arbennig o'n cylchlythyr, sy'n rhoi blas i chi o'r digwyddiadau y byddwn yn eu trefnu ar eich cyfer dros y tymhorau ar y cyd â'n ffrindiau a'n partneriaid. Gobeithio y bydd y rhain yn eich annog i fynd i grwydro yn yr awyr agored ac efallai darganfod ambell i lecyn newydd o'r tirlun hyfryd hwn.



Teithiau cerdded hir, straeon difyr ac awyr eang!

Gan fod 2018 yn 'Flwyddyn y Môr', chwiliwch am ein digwyddiadau ar y thema hwnnw sy'n dathlu ein harfordir unigryw, o ddyddiau gweithgareddau llawn hwyl i'r teulu i ddyddiau o ddarganfod ein hanes, o sgysiau difyr i ddigwyddiadau theatrig - gobeithio bod rhywbeth yma i bawb eu mwynhau.

Mehefin

2-3, 9-10, 16-17

Arddangosfa ffotograffiaeth ‘Y Gwastadeddau drwy’r Lens’

9yb – 5yp Llun - Sul Man cyfarfod: Gwlyptir Casnewydd, Heol Orllewinol Trefonnen, Trefonnen, Casnewydd NP18 2BZ Cost: AM DDIM ond sylwer bod tâl parcio ceir yn y lleoliad hwn.

Mae myfyrwyr o gwrs Sylfaen Ffotograffiaeth Diwydiannau Creadigol Coleg Gwent wedi bod yn tynnu lluniau o bob math o dirlun, pobl, bywyd gwyllt a golygfeydd y Gwastadeddau mewn cyfres o ddelweddau ffotograffig a fideo hyfryd - o bob ongl. Dewch i weld y lluniau yn lleoliad hyfryd Gwlyptir Casnewydd.

7 Diwrnod Hyfforddi Adnabod Cacwn i Ddechreuwr

10yb – 3yp Man cyfarfod: Cors Magwyr, Whitewall, Magwyr, NP26 3DD Cost: Am ddim ond RHAID ARCHEBU LLE

Hoffech chi ddysgu sut i adnabod gwahanol rywogaethau o gacwn, a chymryd rhan mewn helpu i fonitro’r peillwyr hanfodol hyn?

Dewch draw i’n diwrnod Hyfforddi Adnabod Cacwn i Ddechreuwr; yn y bore byddwn yn cynnal sgwrs ar ecoleg, cadwraeth ac adnabod cacwn, ac yn y prynhawn byddwn yn cerdded drwy’r dolydd blodeuog, ac yn adnabod cacwn ledled gwarchodfa Cors Magwyr. Yn benodol, byddwn yn chwilio am rywogaethau prin megis y gardwenynen fain. Ein tywyswyr fydd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a Buglife Cymru.

8 Diwrnod Hyfforddi Adnabod Cacwn ar gyfer rhai gyda rhywfaint o wybodaeth

10yb – 3yp Man cyfarfod: Cors Magwyr, Whitewall, Magwyr, NP26 3DD Cost: Am ddim ond RHAID ARCHEBU LLE

I’r sawl sydd yn berchen ar fwy na gwybodaeth sylfaenol am ein pryfed peillio, dyma gyfle i ddod draw a dysgu’n fwy manwl sut i adnabod ein cacwn sy’n peillio.

Unwaith eto ein tywyswyr fydd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a Buglife Cymru a gobeithiwn am ddiwrnod braf ymysg dolydd hardd Cors Magwyr.

16 30 Diwrnod Bioblitz Gwyllt!

10yb – 4yp Man cyfarfod: Cors Magwyr, Whitewall, Magwyr, NP26 3DD Cost: Plant £2 Oedolion am ddim

Dewch i ddysgu am blanhigion ac anifeiliaid Cors rhyfeddol Magwyr a gyda chymorth arbenigwyr, ymunwch â ni i gofnodi’r amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid sy’n byw yn y warchodfa anhygoel hon.

Bydd hwyl y prynhawn yn cynnwys gwyllo adar, rhwydo’r pwll, chwilota am chwilod, a llawer iawn mwy.



21 ‘Blwyddyn y Môr: o’r Pwll Glo i’r Arfordir’

1yp – 2.30yp Man cyfarfod: Archifau Gwent, Heol y Gwaith Dur, Glyn Ebwy, NP23 6DN Cost: I’W BENDERFYNU

Mae cyswllt cryf rhwng arfordir y Gwastadeddau a chalon ddiwydiannol de Cymru, yn enwedig o ganlyniad i ddatblygiad Dociau Casnewydd. Dewch i ddarganfod y cysylltiadau yma mewn sgwrs ddifyr yn Archifau gwych Gwent, a fydd yn trafod cefndir a chofnodion yn ymwneud â datblygiad diwydiant trwm yn y Cymoedd, y cysylltiadau cludiant pwysig (camlesi, tramiau a threnau) a datblygiad y dociau a’r arfordir. Cewch gyfle i weld rhai o’r cofnodion ar ôl y sgwrs ac hefyd i weld y mapiau gwreiddiol o Wastadeddau Gwent a gomisiynwyd yn 1830.

Gorffennaf 10, 17, 24 Casnewydd Cudd: Y Gwastadeddau a thu hwnt

10 Neuadd Bentref Llangadwaladr Trefesgob 7yh – 9yh Cost: AM DDIM 17 Neuadd Bentref Llanbedr Gwynllwg 7yh – 9.yh Cost: AM DDIM 24 Ystafell Gymunedol Allt-euryn 7yh – 9yh Cost: AM DDIM

Ymunwch â’r hanesydd Andrew Hemmings mewn amrywiol leoliadau ledled y Gwastadeddau. Mae’n ymchwilio i orffennol Casnewydd ac yn mynd dan groen y ddinas i ddatgelu ffeithiau cudd nad ydy hyd yn oed y bobl leol yn eu gwybod. Bydd hefyd yn adrodd straeon am y bobl fawr ac arwyr adeg y Rhyfel o Wastadeddau Gwent a thu hwnt. Bydd ei gyrsiau gyda lluniau’n canolbwyntio ar benawdau yn ei lyfr ‘Casnewydd Cudd’, sy’n trafod Gwastadeddau Gwent ac Arwyr Casnewydd, ac yn argoeli’n dda am noson lawn wybodaeth!

14 Dathlu Treftadaeth Naturiol ein Gwastadeddau Byw

Sadwrn 14 Gorffennaf 2yp – 5yp Man cyfarfod: Cors Magwyr, Whitewall, Magwyr, NP26 3DD Cost: £2 i oedolion, £1 i blant, teuluoedd £5.

Crëwyd Gwastadeddau Gwent gan bobl a’u rheoli am filoedd o flynyddoedd; o ganlyniad, mae gennym dreftadaeth naturiol unigryw. Felly dewch draw i ddathlu ein Gwastadeddau Gwent rhyfeddol yn y Diwrnod Hwyl yr Haf yma yng Nghors Magwyr. Cewch archwilio ein ‘Rhanbarthau Gwastadeddau’ lle gallwch ddysgu am bysgota gyda ‘rhwyd olchi’, mwynhau rhwydo’r pwll, chwilota am chwilod, peintio wynebau, teithiau tywys, crefftiau am ddim, bywyd gwyllt a stondin- au treftadaeth a llawer iawn mwy. Diwrnod gwych i’r teulu oll!

21 Bioblitz ar y Gwlyptiroedd!

10yb – 5yp Man cyfarfod: Gwlyptir Casnewydd, Heol Orllewinol Trefonnen, Trefonnen Casnewydd NP18 2BZ Cost: AM DDIM Sylwer bod angen tâl parcio ceir yn y lleoliad hwn.

Rydym yn wir obeithio y daw’r lluoedd wrth i’r cyflwynydd teledu a’r naturiaethwr Chris Packham ddod i Warchodfa Natur Genedlaethol Gwlyptir Casnewydd, fel rhan o’i Bioblitz ledled y DU - ymgrych ‘Dydy gwarchodfeydd natur ddim yn ddigon!’ i helpu i ddarganfod pa blanhigion ac anifeiliaid rhyfeddol sy’n byw yn y man arbennig hwn ar Wastadeddau Gwent. Yn ystod y dydd, cynhelir llawer o weithgareddau i helpu i ddarganfod a chofnodi pa rywogaethau sydd yma yn ein pyllau, dolydd, coedlannau a gwrychoedd.

Bydd gwobr hefyd am ddarganfyddiad mwyaf nodedig ac annisgwyl y dydd, felly cofiwch ddod â’ch ysbienddrych a’ch chwyddwydr am ddiwrnod llawn hwyl. Felly, os ydych yn ddechreuwr neu’n arbenigwr, ymunwch â ni ar ein hantur, gyda sesiynau a arweinir drwy’r dydd i chi ymuno â nhw a mynd yn Wylt! Bydd **Chris yn galw heibio i weld sut hwyl ydyn ni’n ei gael.**

Awst

7 Baeddu Dwylo gyda’r Mesolithig: gweithgareddau hwyl Oes y Cerrig Cynhanesyddol

Gwlyptiroedd Casnewydd 10.30yb – 12yp 2yp – 3.30yp Man cyfarfod: Canolfan ymwelwyr Gwlyptir Casnewydd Cost: Aelodau’r RSPB £4.40 y plentyn/£5.50 os nad yn aelod

Mae Gwastadeddau Gwent yn gartref i ôl traed ac arteffactau cynhanesyddol enwog ar ei arfordir, felly dewch draw i ymddwyn fel eich cyndadau Mesolithig o Oes y Cerrig yng ngwyliau’r haf! Gallwch beintio, llunio castiau plastr o ôl traed anifeiliaid ddoe a heddiw a llunio eich ôl traed lleidiog eich hun! Byddwn yn defnyddio paent, clai ayyb, felly cofiwch wisgo eich hen ddillad.

Cyswllt ac archebu: newport-wetlands@rspb.org.uk 01633 636363



21 Baeddu Dwylo gyda’r Mesolithig: gweithgareddau hwyl Oes y Cerrig Cynhanesyddol

Archifau Morgannwg 10yb – 2yp Man cyfarfod: Archifau Morgannwg, Clos Parc Morgannwg, Lecwydd, Caerdydd CF11 8AW: AM DDIM www.archifaumorgannwg.gov.uk

Mae Gwastadeddau Gwent yn gartref i ôl traed ac arteffactau cynhanesyddol enwog ar ei arfordir, felly dewch draw i Archifau Morgannwg i ymddwyn fel eich cyndadau Mesolithig o Oes y Cerrig yng ngwyliau’r haf! **Mae cyfle hefyd i ddarganfod ‘Y Tu ôl i’r Llenni’ yn y sefydliad cofnodi pwysig hwn.**

Hydref

29 Datgelu Hanes ac Archeoleg Gwastadeddau Gwent

Sadwrn 29 Medi 10yb – 4yp Man cyfarfod: Gwlyptir Casnewydd, Heol Orllewinol Trefonnen, Trefonnen Casnewydd NP18 2BZ Cost: AM DDIM – Sylwer bod angen talu tâl parcio yn y lleoliad hwn

Ceirw Oes y Cerrig, Rhufeiniaid Rhwysgar a mynaich ... Dewch i ddarganfod sut cafodd Gwastadeddau Gwent eu creu, cyfarfod y bobl a helpodd i lunio’r tirlun unigryw hwn, dysgu rhywfaint o ‘iaith y Gwastadeddau’ ac astudio rhai o’r arteffactau a dynnwyd o laid yr Hafren. Gallwch gyfarfod llawer o’r grwpiau hanes a threftadaeth gwahanol o bob cwr o Wastadeddau Gwent a darganfod y gwaith a’r ymchwil gwerthfawr a wneir ganddyn nhw, sy’n parhau i gadw’r hanes lleol yn fyw.

Bydd gweithgareddau ar gyfer y teulu oll ynghyd ag arddangosiadau, arddangosfeydd, teithiau tywys, sgyrsiau a chewch ddysgu sut i gymryd rhan mewn llawer o’r projectau a gyflwynir gan raglen y Gwastadeddau Byw. Dyma hefyd ran o fis Drysau Agored CADW.

I'w benderfynu...

Dathlu'r Awyr Eang

Wedi misoedd o weithio gyda chymunedau ac ysgolion a chreu gwaith celf gwych a rhannu straeon, bydd cast o gannoedd yn dod â dathliad Awyr Eang i chi drwy gyfrwng straeon, hanes, tirlun a phobl Gwastadeddau Gwent yng Nghanolfan Addysg Amgylcheddol ac Ymwelwyr Gwlyptir Casnewydd.

'Moby Dick'

Wel, fe ddaru ni addo Morfil Mawr Gwyn i chi felly ymunwch â Chwmni Theatr y Tin Shed wrth iddyn nhw ddod â'r stori glasurol hon yn fyw wrth ddefnyddio Pont Gludiant Casnewydd fel cefndir ddramatig i'r stori hon o ddial a maddeuant ar y môr mawr uwchben yr afon Wysg ac ymysg cymuned hanesyddol Pillgwenlli.

Helpwch i rannu'r neges!

Os ydych chi'n meddwl am rywun, neu grŵp o bobl, a allai fod â diddordeb mewn cael gwybod mwy am y Gwastadeddau Byw a chymryd rhan, beth am anfon neu roi copi o'r cylchlythyr iddyn nhw.

Os nad ydych am dderbyn diweddariadau pellach am y Gwastadeddau Byw, yna rhwch wybod i ni fel y gallwn dynnu'ch enw oddi ar y rhestr.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi!

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen neu am gymryd rhan, anfonwch air neu ffoniwch ni:

info@livinglevels.org.uk

01633 292982

Dathlu Perllannau

Mae Gwastadeddau Gwent wedi cael eu rheoli ers miloedd o flynyddoedd ac, o ganlyniad, mae gennym dreftadaeth naturiol unigryw yn cynnwys hanes perllannau o goed afalau, gerllyg a ffrwythau eraill. Felly dewch draw i ddathlu ein Gwastadeddau Gwent gwych yn y Diwrnod o Hwyl hwn ar Gors Magwyr. Cewch fwynhau rhwydo'r pwll, chwilota am chwilod, peintio wynebau, teithiau tywys, crefftau am ddim, bywyd gwyllt, arddangosiadau seidr, stondinau treftadaeth a llawer mwy. Diwrnod i'r brenin i'r teulu i gyd!

Oherwydd tywydd amrywiol y Gwastadeddau, cofiwch wisgo esgidiau priodol a dewch a dillad dal dŵr ar gyfer pob taith. Cofiwch hefyd ddod â diod, dillad addas, eli haul, hylif atal pryfed ar gyfer pob un o'r gweithgareddau awyr agored.

Mae'n bosibl y bydd digwyddiadau eraill yn cael eu trefnu ar ôl i ni ddsbarthu'r cylchlythyr hwn, felly cofiwch wirio ein calendr digwyddiadau ar www.livinglevels.co.uk. Byddwn hefyd yn ymweld â digwyddiadau eraill ar y Gwastadeddau ac yn yr ardal o gwmpas - felly cadwch lygad amdanon!

Edrychwch ar ein gwefan i gael y newyddion diweddaraf am y prosiectau www.livinglevels.org.uk

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol



@ourlivinglevels



Our Living Levels

